# POLISI CYMRU GYFAN

## Trallwyso Cyfansoddion Gwaed y Tu Allan i'r Lleoliad Ysbyty Acíwt

| | |
|---|---|
| **Awdur y Ddogfen:** | Lee Wong/Alister Jones<br>Tîm Iechyd Gwaed |
| **Cymeradwywyd gan:** | Dr Edwin Massey, ar ran Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) |
| **Dyddiad Cymeradwywyd gan BHNOG** | Medi 2021 |
| **Adolygwyd:** | Awst 2021 |
| **Dyddiad adolygu:** | Awst 2024 |
| **Rhif y Ddogfen:** | 3 |
| **Diwygiadau Fersiwn** | BH-04 Rhifyn 4.0 (Medi 2022):<br>yn cynnwys adran 5.3.5 |

## CYNNWYS


| | TUDALEN |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cwmpas | 3 |
| Nodau ac Amcanion | 3 |
| Diffiniadau | 3 |
| Cyfrifoldebau Penodol | 4 |
| Cyfeiriadau | 4 |

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae’r ddogfen hon yn nodi canllawiau ychwanegol penodol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru sy’n cynnig trallwyso gwaed a chyfansoddion gwaed y tu allan i leoliad ysbyty acíwt. Ceir canllawiau manwl yn y ddogfen ‘*Framework for the Development of an out of acute hospital blood transfusion service’* (Green & Pirie, 2007) a fersiwn 2013 wedi'i diweddaru y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y 'Fframwaith'.

# 2 Cwmpas

2.1 Mae’r ddogfen hon yn berthnasol i holl staff a chleifion Byrddau Iechyd Cymru.

# 3 Nodau ac Amcanion

3.1 Diben y ddogfen hon yw sicrhau bod unrhyw Fwrdd Iechyd sy’n cynnig trallwysiad gwaed y tu allan i’r lleoliad ysbyty acíwt yn gwneud hynny gyda’r risg leiaf bosibl i gleifion, staff a’r sefydliad drwy gadw at y pwyntiau canlynol.

3.1.1 Dylai Byrddau Iechyd ddatblygu polisi lleol penodol

3.1.2 Dylai Byrddau Iechyd ddilyn y canllawiau a nodir yn y Fframwaith a’r canllawiau ychwanegol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru a gyflwynir yn y ddogfen hon

# 4 Diffiniadau

4.1 *Lleoliad Y Tu Allan i Ysbyty Acíwt*
Mae hyn yn cyfeirio'n bennaf at gartref y claf ei hun ond gall gynnwys

- Cartrefi preswyl a nyrsio
- Hosbisau
- Canolfannau triniaeth lleol

a lleoliadau eraill a nodir yn y Fframwaith

4.2 *Hyfforddiant*
Rhaid i’r Nyrs Gofrestredig (RN) fod wedi’i hyfforddi a’i hasesu’n gymwys gan yr Ysbyty sy’n cyflenwi a rhaid cadw cofnod o hyfforddiant (Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, 2006)

Dylid defnyddio Pecyn Cymhwysedd Trallwyso Gwaed Cymru Gyfan i gwblhau'r asesiadau

Dylid hyfforddi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) a rhieni i adnabod adwaith niweidiol yn gynnar a’r camau priodol i’w cymryd

4.3 *Awdurdodiad Trallwyso Gwaed Anfeddygol (NABT)*
Ers 2012, mae gweithwyr proffesiynol gofal iechyd anfeddygol a nodwyd wedi ymgymryd â rhaglen addysg achrededig benodol sy’n eu galluogi i wneud y penderfyniad clinigol i drallwyso ac i ddarparu’r cyfarwyddyd ysgrifenedig ar gyfer trallwysiad. O ganlyniad, mae eu cyflogwr yn cydnabod eu bod yn gymwys i gyflawni'r dasg hon.

## 5 Cyfrifoldebau Penodol yn Ychwanegol i'r Fframwaith

5.1 Dylai Clinigwr (Ymgynghorydd Ysbyty, Ymarferydd NABT neu Ymarferydd Cyffredinol) gymryd cyfrifoldeb am y trallwysiad (Clinigwr Cyfrifol). Mae'n gyfrifol am y canlynol:

5.1.1 Trefnu samplau cyn trallwysiad priodol a gofyn am gyfansoddion priodol

5.1.2 Darparu'r cyfarwyddyd ysgrifenedig ar gyfer y trallwysiad

5.1.3 Trefnu'r trallwysiad gyda'r tîm nyrsio perthnasol

5.1.4 Gwneud trefniadau i ddelio ag unrhyw adwaith a achosir gan y trallwysiad

5.2 Bydd Labordy Trallwyso'r Ysbyty yn rhoi'r cyfansoddyn gwaed (celloedd coch neu blatennau) mewn cynhwysydd cludo priodol i'w gasglu gan nyrs neu i'w anfon i leoliad y cytunwyd arno. Argymhellir na ddylid rhoi mwy na 2 uned i'r claf ar unrhyw un diwrnod

5.3 Mae'r RN yn gyfrifol am reoli gweinyddiaeth y trallwysiad gwaed neu'r platennau a rhaid iddo ef/hi fod yn bresennol ar gyfer dechrau pob uned o waed neu blatennau a drallwysir.

5.3.1 Rhaid i'r RN aros yn bresennol am 15 munud cychwynnol trallwysiad pob uned o waed neu blatennau.

5.3.2 Rhaid i'r RN gofnodi arsylwadau cyn y trallwysiad ac ar ôl 15 munud.

5.3.3 Os nad oes unrhyw broblemau gyda'r trallwysiad, yna gall HCSW hyfforddedig, neu yn achos plentyn y rhieni hyfforddedig, fonitro'r claf yn ystod gweddill trallwysiad yr uned honno o waed.

5.3.4 Os bydd yr RN yn gadael y claf yng ngofal y HCSW neu'r rhiant hyfforddedig, rhaid cael dull sydd wedi'i ddogfennu'n glir o alw am gymorth.

5.3.5 Mater i ddisgresiwn y Byrddau Iechyd yw cymhwyso gofynion ychwanegol yn ôl yr angen (gweler hefyd 3.1).

5.4 Rhaid i'r RN neu HCSW neu riant hyfforddedig fod yn bresennol drwy gydol y weithdrefn.

5.5 Rhaid rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw ddigwyddiadau andwyol mewn perthynas â'r trallwysiad i'r Clinigydd Cyfrifol a'r Labordy Trallwyso Ysbyty sy'n cyflenwi.

5.6 Rhaid bodloni gofynion olrhain yr Ysbyty / Bwrdd Iechyd sy'n cyflenwi trwy gwblhau'r ddogfennaeth yn briodol, a dychwelyd y ddogfennaeth briodol yn brydlon.

## 6 Cyfeiriadau

Green, J., Pirie, L. (2007, 2013). *Framework for the Development of an Out of Acute Hospital Blood Transfusion Service*

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. (2006). *Safer Practice Notice 14, Right Patient Right Blood*

Shreeve, K., Benton, A. (2013) Polisi Cymru Gyfan: Awdurdodi Trallwyso Cyfansoddion Gwaed yn Anfeddygol